



Ein cyf/Our ref KS/02508/18

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 Medi 2018

Dear David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 15 Awst ynglŷn â Deiseb P-05-835 Caniatáu rhyddid i yrwyr tacsis symud yn ddilyffethair i wneud gwaith hurio preifat yn unrhyw le yng Nghymru.

Awdurdod trwyddedu Caerdydd yw'r unig awdurdod yng Nghymru sydd wedi cyfyngu ar niferoedd y trwyddedau hacni. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar niferoedd ar gyfer cerbydau hurio preifat yng Nghaerdydd.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r sector a'r awdurdodau trwyddedu i ddatblygu cynigion a fydd yn gweithio i Gymru.

Rwyf yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn eleni a fydd yn cyflwyno cynigion manwl ar gyfer diwygio'r drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru. Er y bydd fy nghynigion yn cynnwys mesurau newydd i gyfyngu ar weithio y tu allan i'r ardal gartref, byddaf yn cynnwys trefniadau i wella'r sefyllfa o ran gweithio y tu allan i'r ardal gartref pan fydd hynny'n ddoeth ac yn briodol. Un enghraifft o'r fath fydd yr angen i wella capasiti er mwyn diwallu'r galw uwch pan gynhelir digwyddiadau mawr.

Byddaf yn mynd ati hefyd i amlinellu trefniadau ar gyfer gweithredwyr, a'r berthynas rhyngddynt a'r gywyr sy'n gweithio gyda nhw, a hynny er mwyn sicrhau bod gweithredwyr, y gweithwyr a gyflogir ganddynt, a'u gywyr yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol yr ydym am yn awyddus i'w cyflwyno ar gyfer trwyddedu.

*Yn Gymerio
Ken*

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.